

Papur Materion

8 Ionawr 2013

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Tystiolaeth a Gwybodaeth ar gyfer Adolygiad Macur	2
Cwestiynau yr ydym eisiau eich barn amdanynt	2
Gobeithiwn glywed gennych yn fuan	3
Fformatau eraill	4
Cyfrinachedd	4

Cyflwyniad

1. Mae Adolygiad Macur yn Adolygiad Annibynnol, a gadeirir gan Mrs Ustus Macur ac sy'n ofynnol fel rhan o'n Cylch Gorchwyl

'I adolygu cwmpas Ymchwiliad Waterhouse a pha un ai oedd unrhyw honiadau penodol o gam-drin plant a oedd yn berthnasol i'r cylch gorchwyl heb eu hymchwilio fel rhan o'r Ymchwiliad, ac i gyflwyno argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.'

Cefndir

2. Roedd Cylch Gorchwyl Ymchwiliad Waterhouse, a gyhoeddwyd ar 17 Mehefin 1996, fel a ganlyn:
 - (a) Ymchwilio i gam-drin plant mewn gofal yn ardaloedd cyn-gynghorau sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974;
 - (b) Edrych a fyddai wedi bod yn bosib i'r asiantaethau a'r awdurdodau a oedd yn gyfrifol am ofal o'r fath, drwy leoli plant neu drwy reoleiddio neu reoli'r cyfleusterau, atal y cam-drin neu ei ganfod yn gynt;
 - (c) Edrych ar ymateb yr awdurdodau a'r asiantaethau perthnasol i'r honiadau a'r cwynion am gam-drin a wnaed naill ai gan blant mewn gofal, plant a arferai fod mewn gofal neu unrhyw unigolion eraill, ac eithrio craffu ar a ddylid erlyn unigolion sydd wedi'u henwi;
 - (d) Yng ngoleuni'r archwiliad hwn, ystyried a oedd yr asiantaethau gofal ac ymchwiliol perthnasol wedi cyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac, yn achos yr asiantaethau gofal, a ydynt yn gwneud hynny yn awr; a chofnodi ei ddarganfyddiadau a gwneud argymhellion i Ysgrifennydd Gwladol, Cymru.
3. Cyflwynodd yr Ymchwiliad ei adroddiad "Ar Goll Mewn Gofal" ar 16 Chwefror 2000.

Tystiolaeth a Gwybodaeth ar gyfer Adolygiad Macur

4. Rydym wedi derbyn y dystiolaeth a sicrhawyd, a chyfrolau mawr o ddeunydd perthnasol i'r Ymchwiliad gwreiddiol. Rydym yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau a fyddai neu a ddylai fod wedi bod ar gael ar gyfer yr Ymchwiliad, neu a all fod yn sail i'n Hadolygiad ni yn awr, yn cael eu rhoi i ni.
5. Byddem hefyd yn hoff iawn o glywed gan unrhyw un sydd â gwybodaeth am gylch gwaith ein Hadolygiad. Rydym wedi datgan isod rai cwestiynau sydd o ddiddordeb i ni.

Cwestiynau yr ydym eisiau eich barn amdanynt

6.
 - i. Oedd cylch gorchwyl Ymchwiliad Waterhouse yn ddigon eang i roi sylw i'r holl faterion o ddiddordeb cyhoeddus cyfreithlon a/neu anniddigrwydd ynghylch honiadau o barhau i gam-drin plant mewn gofal a natur y gweithdrefnau a'r arferion gofal plant yng Ngogledd Cymru?
 - ii. A osodwyd unrhyw gyfyngiadau gormodol ar y cylch gorchwyl er mwyn atal ymchwiliad neu archwiliad llawn o'r dystiolaeth er mwyn gwarchod unrhyw unigolyn neu sefydliad?
 - iii. Os na, oedd y Tribiwnlys yn ymddangos fel pe bai'n cyfyngu ar y cylch gorchwyl er mwyn osgoi ymchwilio i'r dystiolaeth berthnasol neu ei harchwilio?
 - iv. A roddwyd unrhyw bwysau ar y rhai a oedd yn cymryd rhan yn yr Ymchwiliad, boed fel aelodau'r Tribiwnlys, ei staff, y timau cyfreithiol, tystion neu gyfranwyr, i fwrw i'r naill ochr, atal neu gelu tystiolaeth o berthnasedd i Ymchwiliad Waterhouse?
 - iv. A gafodd yr holl dystion perthnasol wahoddiad i gyflwyno datganiadau a/neu gael eu clywed gan yr Ymchwiliad? Os na, pam?
 - v. A gafodd yr holl dystion perthnasol wahoddiad i gyflwyno datganiadau a/neu gael eu clywed gan yr Ymchwiliad? Os na, pam?

- vi. A gafodd y tystion gefnogaeth ddigonol (e.e. cyngor cyfreithiol, eiriolaeth neu gwnsela) i hwyluso rhoi gwybodaeth i'r Ymchwiliad?
 - vii. Oedd y trefniadau a wnaed ar gyfer yr Ymchwiliad, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hysbysiad yr Ymchwiliad a'i weithrediadau, cyfweld tystion, lleoliad pencadlys y Tribiwnlys, cyfluniad siambr y gwrandawriad, cymryd tystiolaeth lafar, yn annog cyfranogiad y tystion perthnasol?
7. Ni fyddwn yn llunio unrhyw gasgliadau nes bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni'n cael ei hystyried.

Gobeithiwn glywed gennych yn fuan

8. Edrychwn ymlaen at glywed eich safbwyntiau ar y materion hyn ac ar unrhyw faterion cysylltiedig a godir gan ein Cylch Gorchwyl yn eich tyb chi. Hoffem dderbyn eich safbwyntiau cyn gynted â phosib ac erbyn 29 Mawrth 2013 fan bellaf. Oni bai eich bod yn gwneud cais penodol fel arall, bydd yr ymatebion i gyd yn cael eu cyhoeddi.
9. Dylid anfon pob safbwynt i'r cyfeiriadau e-bost neu bost isod. Os ydych yn gwrthwynebu i aelod o'r Adolygiad gysylltu â chi os bydd yn teimlo bod angen eglurhad pellach o'ch ymateb, nodwch hynny os gwelwch yn dda:

enquiries@macurreview.gsi.gov.uk

Adolygiad Macur
Ystafell TM 10.02
Y Llysoedd Barn Brenhinol
Strand
WC2A 2LL

10. Gall unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno ei safbwyntiau dros y ffôn wneud hynny drwy ddefnyddio ein rhif ffôn Rhadffôn arbennig, gyda recordiad awtomatig, ar 0800 313 4139.

Fformatau eraill

11. Os oes arnoch angen yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau cyffredinol am Adolygiad Macur, cysylltwch â ni drwy e-bost ar enquiries@macurreview.gsi.gov.uk neu ffoniwch ni ar 020 7071 5770.

Cyfrinachedd

Bydd unrhyw safbwyntiau a thystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir i Adolygiad Macur yn cael eu cyhoeddi oni bai fod eu cyhoeddi'n anghyfreithlon ac oni bai y gwneir cais fel arall. Os hoffech i unrhyw ran o'r wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno gennych chi yn eich ymateb gael ei thrin yn gyfrinachol, nodwch hynny'n glir mewn nodyn i gyd-fynd â'r ymateb neu e-bost (nid yw'r testun cyfrinachedd sy'n rhan o gorff unrhyw ddogfennau a gyflwynir, neu'n safonol mewn negeseuon e-bost, yn ddigonol), gan ddatgan yr wybodaeth berthnasol ac egluro pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth rydych chi wedi'i chyflwyno fel gwybodaeth gyfrinachol. Hyd yn oed pan wneir ceisiadau o'r fath, ni all Adolygiad Macur warantu y bydd y cyfrinachedd yn cael ei gynnal o dan bob amgylchiad, yn arbennig os yw datgelu'r wybodaeth yn ofynnol yn gyfreithiol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon penodol am gyfrinachedd yr hoffech eu trafod, cysylltwch ag Adolygiad Macur ar

enquiries@macurreview.gsi.gov.uk.

Nid yw Adolygiad Macur yn dod o dan ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Er hynny, unwaith y bydd Adolygiad Macur wedi cwblhau ei waith, mae ei bapurau'n debygol o gael eu hanfon ymlaen at y Llywodraeth. O dan yr amgylchiadau hyn, gall yr wybodaeth a gadwyd o dan Adolygiad Macur fod yn rhan wedyn o ofynion y ddeddfwriaeth honno.

Mae aelodau Adolygiad Macur yn rheolyddion data oddi mewn i ddiffiniad Deddf Diogelu Data 1998. Bydd unrhyw ddata personol a ddarperir yn cael eu cadw a'u prosesu gan y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth at bwrpas gwaith yr Adolygiad yn unig, ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Unwaith y bydd Adolygiad Macur wedi cwblhau ei waith, yna mae unrhyw ddata personol a gedwir yn debygol o gael eu hanfon ymlaen at y Llywodraeth at bwrpas cadw cofnodion cyhoeddus.

Adolygiad Macur
Ystafell TM 10.02
Y Llysoedd Barn Brenhinol
Strand
WC2A 2LL

T: 020 7071 5770

E: enquiries@macurreview.gsi.gov.uk

www.justice.gov.uk/about/macur-review